**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD STD 01-02 (DRAFT MIN)**

Dyddiad: 20 Mawrth 2002, am 09.30 am

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Bae Caerdydd

Presenoldeb

*Aelodau*

David Melding, Canol De Cymru (Cadeirydd)

Cynog Dafis, Canolbarth a Gorllewin Cymru

Brian Hancock, Islwyn

Christine Gwyther, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

Brian Hancock, Islwyn

Gareth Jones, Conwy

Gwenda Thomas, Castell-nedd

Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

Karen Sinclair, De Clwyd

*Swyddogion*

Andrew George, Clerc y Pwyllgor

Steve George, Dirprwy Glerc y Pwyllgor

David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol y Llywydd

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau rhagarweiniol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Diolchodd i Eleanor Burnham a Janice Gregory am eu gwaith fel aelodau o'r Pwyllgor a chroesawodd yr aelodau newydd i gymryd eu lle, sef, Kirsty Williams a Lynne Neagle yn y drefn honno.

2. Derbyniasid ymddiheuriadau gan Lynne Neagle a Richard Penn (Cynghorydd Annibynnol [y Cynulliad] ar Safonau).

3. Cadarnhaodd y Pwyllgor fod cofnodion y cyfarfod diwethaf (STD 05-01 draft min) yn gofnod cywir.

**Eitem 2: Diweddariad chwarterol ac adolygiad o'r camau a gymerwyd yn deillio o STD-05-01**

Papur STD-01-02(01)

4. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem ac eglurodd fod y tri phwynt gweithredu a oedd yn deillio o’r cyfarfod ar 12 Rhagfyr wedi cael eu cyflawni. Byddai’r Gofrestr Buddiannau (Eitem 3) a’r Seiri Rhyddion (Eitem 4) yn cael eu trafod yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

5. Roedd y Cadeirydd o’r farn i’r ddadl yn y cyfarfod llawn ar Adroddiad y Pwyllgor ar Fuddiannau Anuniongyrchol fod yn llwyddiant. Roedd wedi ysgrifennu at holl Aelodau’r Cynulliad yn dilyn y ddadl i bwysleisio eu bod yn gyfrifol am sicrhau bod eu cofnodion yn y Gofrestr yn cael eu diweddaru’n rheolaidd.

6. Nodwyd papur yr Ysgrifenyddiaeth gan y Pwyllgor.

**Eitem 3: Diweddariad ar y Gofrestr Buddiannau’r Aelodau**

Eitem Lafar

7. Cyflwynodd Clerc y Pwyllgor adroddiad ar newidiadau a wnaethpwyd i’r broses o gyhoeddi’r Adroddiad ar y Gofrestr Buddiannau’r Aelodau. Cyhoeddwyd adroddiad ar y Gofrestr ym mis Ionawr. Bellach mae’r Ysgrifenyddiaeth wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod adroddiad a ddiweddarwyd yn cael ei gyhoeddi ar y Rhyngrwyd yn wythnosol. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf o’r fath yn ystod yr wythnos yn dechrau 18 Mawrth 2002. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y broses mor agored a thryloyw â phosibl.

8. Gofynnwyd i’r Ysgrifenyddiaeth gadarnhau a fyddai’n bosibl nodi nifer y bobl a oedd yn ymweld â thudalen Cofrestr Buddiannau’r Aelodau ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

*Gweithredu*: Ysgrifenyddiaeth

**Eitem 4: Y Seiri Rhyddion**

Papur STD-01-02(02)

9. Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ystyried papur STD-01-02(02) gan yr Ysgrifenyddiaeth ac i benderfynu ar ffordd ymlaen o ran ystyried y gofyniad fod Aelodau'r Cynulliad yn cofrestru eu bod yn aelodau o'r Seiri Rhyddion.

10. Tynnodd sylw at y ffaith mai'r Cynulliad a fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol ar y mater hwn a hynny mewn Cyfarfod Llawn – ni allai'r Pwyllgor ond cyflwyno adroddiadau ac argymell. Fodd bynnag, byddai safbwyntiau'r Pwyllgor yn ystyriaeth briodol pe bai'r gofynion cyfredol yn cael eu herio mewn unrhyw ffordd. Yn ogystal, cyfeiriodd sylw'r Pwyllgor at lythyr, dyddiedig 15 Mawrth, oddi wrth Mr John Hamill o'r United Grand Lodge yn Lloegr a gawsai ei ddosbarthu i Aelodau ac a oedd yn rhoi manylion pellach am gamau disgyblu gan y Seiri Rhyddion yn erbyn aelodau sy'n camddefnyddio eu haelodaeth.

11. Wrth drafod, gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau:

i. Nid yw sefydliadau eraill yn arfer yr un lefel o gyfrinachedd â'r Seiri Rhyddion. Yn wahanol i'r honiadau a wnaethpwyd gan y Seiri Rhyddion mewn cyfarfodydd blaenorol, nid yw'n bosibl dod o hyd i wybodaeth am aelodau a defodau mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ac ati. Mae'r Seiri Rhyddion yn sefydliad hierarchaidd, sy'n annog nawddogaeth drwy ddefnyddio llwon a defodau. Gellir gwahardd aelodau, sy'n awgrymu bod rhyw fath o gofnod canolog o aelodaeth yn bodoli. Roedd y broses o wahardd merched o'r Seiri Rhyddion yn annheg. Dylai'r gofyniad presennol barhau ond dylid ei ehangu i gynnwys pob clwb a chymdeithas pe bai angen hynny er mwyn cynnal y gofyniad mewn perthynas â'r Seiri Rhyddion.

ii. Er bod canfyddiadau negyddol ynglŷn â Seiri Rhyddion roedd yn bwysig seilio unrhyw benderfyniad ar ffeithiau profadwy yn hytrach nag ar ganfyddiadau. Byddai cael "eglurder" ynglŷn â "natur unigryw" y Seiri Rhyddion yn ffactor pwysig wrth benderfynu ar ffordd ymlaen. Dylid cyfeirio unrhyw ofynion cofrestru diwygiedig at gymdeithasau caeëdig neu gyfrinachol.

iii. Gallai gofynion cyfredol y Cynulliad fod yn ychwanegu'n anghyfiawn at ganfyddiad negyddol o'r Seiri Rhyddion. Roedd parodrwydd y Seiri Rhyddion i ymddangos gerbron y Pwyllgor ac ateb cwestiynau mewn fforwm cyhoeddus

agored yn awgrymu nad oeddent yn sefydliad cyfrinachol. Er nad oeddent yn sefydliad cynhwysol, prin oedd y dystiolaeth a gyflwynasid a oedd yn cwestiynu eu gonestrwydd sylfaenol. Roedd y dewis rhwng y ‘status quo’ a gofyniad i ddatgan aelodaeth o unrhyw sefydliad. Byddai’r penderfyniad i gadw’r ‘status quo’ yn debygol o gyflwyno risgiau cyfreithiol sylweddol.

iv. Gellid ystyried bod rhai o’r enghreifftiau yn llythyr Mr Hamill dyddiedig 15 Mawrth yn dangos bod y Seiri Rhyddion yn disgyblu aelodau a oedd yn agored ynglŷn â’u haelodaeth. Mae’r Seiri Rhyddion yn gymdeithas gyfrinachol ac mae’n rhaid i’r gofynion cyfredol barhau er y gellid ystyried eu hehangu i gynnwys sefydliadau eraill. Ni ddylid gwneud hyn mewn ffordd a fyddai’n arwain at y posibilrwydd o gyflwyno sancsiynau troseddol yn erbyn Aelodau am fethu â datgan aelodaeth gweddol ddiniwed.

v. Roedd Grŵp Cynghorol y Cynulliad Cenedlaethol (NAAG) wedi cynnal proses ymgynghori gyhoeddus eang iawn ac wedi canfod bod cefnogaeth eang am ei gwneud yn ofynnol i Seiri Rhyddion gofrestru eu haelodaeth. Fodd bynnag, nid oedd yn dderbyniol i barhau â’r gofynion cyfredol ar y sail, yn syml, nad oedd Aelodau, neu’r cyhoedd ehangach, yn hoff o’r Seiri Rhyddion. Roedd y cyngor cyfreithiol yn awgrymu nad oedd y sefyllfa gyfredol yn gynaliadwy. Dylid ystyried gwneud cofrestru ehangach yn ofynnol hyd yn oed pe bai hyn yn fwy beichus na’r trefniadau cyfredol.

vi. Nid oedd canfyddiad y cyhoedd yn fater amherthnasol. Roedd y gofyniad am ddatgan aelodaeth o’r Seiri Rhyddion yn lleddfu pryderon y cyhoedd ac yn helpu i oresgyn unrhyw ganfyddiadau negyddol ynglŷn â’r ffordd yr oedd y Cynulliad yn cynnal ei fusnes.

vii. Roedd y gwahaniaeth rhwng cymdeithas breifat a chyfrinachol, ar y cyfan, yn ymwneud â chanfyddiadau. Byddai’n anodd cadarnhau peth o’r wybodaeth yn rhannau o Atodiad D i bapur yr Ysgrifenyddiaeth gan fod y Seiri Rhyddion yn dweud nad ydynt yn dal rhestrau aelodaeth canolog. Os mai ymdeimlad cyffredinol y Pwyllgor oedd na ddylid neilltuo’r Seiri Rhyddion fel sefydliad, yna’r ymagwedd fwyaf uniongyrchol o bosibl fyddai dileu’r gofyniad cyfredol yn gyfan gwbl.

12. Dywedodd David Lambert wrth y Pwyllgor y gallai’r broses o ddarparu rhestrau aelodaeth i lyfrgelloedd neu eu cyhoeddi mewn ffyrdd eraill gyfateb ag achos o dorri’r Ddeddf Diogelu Data. Yn ogystal, cyfeiriodd at Atodiad B i bapur yr Ysgrifenyddiaeth a dywedodd bod y Llys Ewropeaidd dros Hawliau Dynol wedi ystyried nad oedd y Seiri Rhyddion yn gymdeithas gyfrinachol. Os cynhelir y ‘status quo’, ac os bydd yna her yn erbyn y gofyniad, hwyrach y bydd yn rhaid i’r Cynulliad ddangos pam yr oedd y Seiri Rhyddion yn cael eu trin yn wahanol i gyrff eraill.

13. Wrth grynhoi’r drafodaeth dywedodd y Cadeirydd:

i. Ymddangosai fel pe bai consenws perygl y gwneid her gyfreithiol lwyddiannus pe cedwid y ‘status quo’ a dylid rhoi gofyniad mwy cadarn yn gyfreithiol yn ei le.

ii. Roedd aelodau’r Pwyllgor yn ffafrio’r dewis o gadw’r gofyniad am i Seiri Rhyddion gofrestru eu haelodaeth ond dylid ehangu hyn er mwyn sicrhau na allai’r Seiri Rhyddion honni eu bod yn cael eu neilltuo.

iii. Byddai angen i’r Ysgrifenyddiaeth a Mr Lambert roi ystyriaeth bellach i union fanylion y gofyniad am gofrestru ehangach. Byddent yn llunio adroddiad drafft a’i gyflwyno i’r Cynulliad, gan ddefnyddio’r safbwyntiau a fynegwyd gan ei Aelodau, adroddiad y byddai’r Pwyllgor yn cael gwahoddiad i’w gymeradwyo yn eu cyfarfod nesaf.

iv. Yn dilyn hynny, byddai’r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei wahodd i ystyried adroddiad y Pwyllgor ynghyd ag unrhyw newidiadau a wneid o ganlyniad i’r Rheolau Sefydlog.

14. Cymeradwyodd y Pwyllgor grynhoad y Cadeirydd a gofynnodd i’r Ysgrifenyddiaeth weithredu ar y mater yn unol â hynny.

*Gweithredu*: Yr Ysgrifenyddiaeth a David Lambert i ddarparu adroddiad drafft i’r Pwyllgor ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf.

**Eitem 6: Adolygiad o’r Gweithdrefnau ar gyfer Safonau: Penodi Cynghorydd Arbenigol**

Eitem Lafar

15. Rhoddodd Clerc y Pwyllgor adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â rhaglen waith y Cynghorydd Arbenigol. Yn dilyn ei chyfarfodydd cynharach ag Aelodau, y Llywydd a Chlerc y Cynulliad, roedd yr Athro Woodhouse wedi llunio cynllun gwaith ac amserlen arfaethedig, gydag adroddiad terfynol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn Hydref 2002.

16. Yn ogystal, roedd yr Athro Woodhouse wrthi'n casglu ac yn crynhoi gwybodaeth ar drefniadau safonau ymddygiad o fewn cyrff eraill. Roedd wedi cyfarfod ag Elizabeth Filkin, Richard Penn a Syr Nigel Wicks, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Roedd trefniadau hefyd ar waith iddi gyfarfod â phedwar arweinydd y pleidiau yn y Cynulliad, a chynrychiolwyr llywodraeth leol ac amryw gyrff rheoliadol yng Nghymru.

17. Roedd yr Athro Woodhouse wedi cynnig ei hymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod (a byddai'n anodd iddi fynychu cyfarfodydd ar ddydd Mercher yn y dyfodol). Dywedodd Clerc y Pwyllgor y byddai'n ceisio trefnu iddi gyfarfod ag Aelodau'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl i drafod cynnydd a chyfeiriad cyffredinol ei hadolygiad.

*Gweithredu*: Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfarfod rhwng yr Athro Woodhouse ac Aelodau'r Pwyllgor.

**Eitem 6: Materion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor ar Gyngor**

**6i.: Cyfrinachedd Adroddiadau'r Pwyllgor**

Papurau STD-01-02(3)

18. Wrth gyflwyno'r mater eglurodd y Cadeirydd i'r papur gael ei ystyried gan Banel y Cadeiryddion (POC) a oedd wedi gofyn am safbwyntiau'r Pwyllgor ar y mater. Nododd y POC y gallai hwn fod yn fater priodol i ofyn i'r Athro Woodhouse ei ystyried fel rhan o'i hadolygiad o faterion yn ymwneud â Safonau yn y Cynulliad.

19. Wrth drafod, gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

i. Ar hyn o bryd ni cheir gweithdrefnau cyson er mwyn delio â drafftiau cyfrinachol. Roedd y mater yn un pwysig a dylid ei ystyried yn ofalus. Roedd adolygiad yr Athro Woodhouse yn cynnig y cyfle hwn.

ii. Un posibiliad fyddai cynnwys cymal cyfrinachedd yn y Cod Safonau i Aelodau. Fodd bynnag, byddai hynny'n arwain at ymholiadau i "ddatgelu bob yn dipyn", ac ni fyddai hynny'n swyddogaeth briodol i'r Pwyllgor.

iii. Byddai'n bwysig sicrhau bod statws y ddogfen a ddosberthir yn glir i bawb. Er enghraifft byddai gan "ddrafft" arwyddocâd gwahanol i "ddrafft cyfrinachol" ac ati.

iv. Dylid cyfeirio materion yn ymwneud ag egwyddor at yr Athro Woodhouse ond nid oedd unrhyw reswm pam na ellid mabwysiadu'r mesurau ymarferol a awgrymwyd ym mhapur y POC ar unwaith.

21. Wrth grynhoi'r drafodaeth dywedodd y Cadeirydd fod yna gonsensws o blaid gofyn i'r Athro Woodhouse ystyried mater egwyddor fel rhan o'i hadolygiad. Roedd y Pwyllgor hefyd yn fodlon y gellid mabwysiadu'r camau ymarferol a amlinellir ym mhwynt bwled cyntaf paragraff 4 ym mhapur y POC fel arfer da cyn i'r Athro Woodhouse ystyried y mater.

22. Cymeradwyodd y Pwyllgor grynhoad y Cadeirydd a gofynnodd i'r Ysgrifenyddiaeth weithredu yn unol â hyn.

*Gweithredu:* Yr Ysgrifenyddiaeth i gyfeirio'r mater at yr Athro Woodhouse er mwyn iddi ei ystyried ac i hysbysu Panel y Cadeiryddion o gasgliadau'r Pwyllgor.

**6i.: Datgelu Gweithdrefnau Preifat Pwyllgorau**
Papurau STD-01-02(04)

23. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem ac eglurodd fod y Llywydd wedi gofyn i'r Pwyllgor am gyngor, o dan Reol Sefydlog 16(iii), mewn perthynas ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol. Roedd y mater sylfaenol yn debyg i'r

eitem flaenorol ac roedd y Llywydd wed nodi y gallai hwn hefyd fod yn fater priodol i ofyn i'r Athro Woodhouse ei ystyried fel rhan o'i hadolygiad o faterion yn ymwneud â Safonau.

24. Wrth drafod gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

i. Roedd y ddadl y dylai holl fusnes y pwyllgor fod yn agored ac yn dryloyw yn un ddilys. Yn realistig, fodd bynnag, byddai bob amser angen am breifatrwydd ar adegau. Roedd y cydbwysedd rhwng y ddau yn bwysig ond dylai'r angen am gyfarfodydd preifat fod yn eithriad yn hytrach nag yn rheol.

ii. Roedd y modd y diffinnid preifatrwydd yn ystyriaeth bwysig. Er bod Rheolau Sefydlog yn gofyn i'r Pwyllgorau Busnes gwrdd yn breifat, roedd angen hysbysu'r pleidiau ac eraill o gynigion a phenderfyniadau'r Pwyllgor.

25. Wrth grynhoi'r drafodaeth dywedodd y Cadeirydd ei bod yn ymddangos bod y Pwyllgor yn fodlon ar ofyn i'r Athro Woodhouse edrych ar y mater hwn, yn ogystal â'r un a drafodwyd yn Eitem 6i., gyda'r bwriad o egluro'r Cod Safonau i Aelodau.

26. Cymeradwyodd y Pwyllgor grynhoad y Cadeirydd a gofynnodd i'r Ysgrifenyddiaeth weithredu yn unol â hyn.

*Gweithredu:* Yr Ysgrifenyddiaeth i gyfeirio'r mater at yr Athro Woodhouse er mwyn iddi ei ystyried.

**6. iii: Braint**

Papurau STD-01-02(05)

27. Wrth gyflwyno'r mater eglurodd y Cadeirydd fod y Llywydd wedi gofyn i'r Pwyllgor am gyngor, o dan Reol Sefydlog 16(iii), mewn perthynas ag ymddygiad Aelodau yn gyffredinol. Yn arbennig, roedd wedi gofyn am gyngor y Pwyllgor ynglŷn â ph'un a oedd Rheolau Sefydlog ac arweiniad cyfredol y Cynulliad ynglŷn â'r defnydd o Fraint, o dan Adran 77 O Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ddigon cadarn a ph'un a oedd angen unrhyw newidiadau.

28. Cytunodd y Pwyllgor fod y mater hwn yn gorwedd ar y ffin rhwng Safonau Ymddygiad a rolau'r Llywydd a Chadeiryddion y Pwyllgorau i gynnal trefn yn y Siambr ac mewn cyfarfodydd. Fodd bynnag, cytunwyd nad oedd yr arweiniad ar fraint yn glir a gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth gyflwyno papur yn amlinellu'r prif faterion i'r Pwyllgor eu hystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

*Gweithredu*: Yr Ysgrifenyddiaeth i gyflwyno papur yn amlinellu goblygiadau Braint o dan Adran 77 yn y Cynulliad.

**Eitem 7: Papur Ysgrifennu ac Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**7.i: Defnydd o Bapur Ysgrifennu ac Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Papurau STD 01-02(06)

29. Roedd y Pwyllgor Tŷ wedi darparu arweiniad diwygiedig ynglŷn â defnyddio papur ysgrifennu ac adnoddau eraill a gofynnodd i'r Pwyllgor am ei safbwyntiau.

30. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

i. Yn Atodiad E roedd angen rhoi rhagor o bwyslais ar yr angen am fod yn arbennig o wyliadwrus yn ystod y cyfnod yn arwain at yr etholiadau yn enwedig Etholiad Cyffredinol Cymru yn 2003. Yn wahanol i leoedd eraill, nid oedd Aelodau yn rhoi'r gorau i fod yn Aelodau pan fyddai etholiad gerllaw.

ii. Yn Atodiad A (ail bwynt bwled paragraff 2), roedd angen cael eglurhad ynglŷn â'r dehongliad o'r geiriau "in modest quantities". Ystyriwyd hefyd fod paragraff 6 yn Atodiad A yn anodd i'w orfodi a byddai'n well pe bai'n cael ei ddileu (oherwydd gallai methu â dilyn canllawiau fod yn gyfystyr ag achos o dorri'r Cod Safonau i Aelodau).

iii. Yn Atodiad D roedd y frawddeg gyntaf a oedd yn dweud "*E-Mail services provided from the National Assembly Building are provided from public funds*

*and must not be used for purposes that are not properly a charge on public funds."* a'r gosodiad yn nes ymlaen yn yr un Atodiad y gallai'r mathau o e-bost a ddylai gynnwys ymwrthodiad ymwneud â dibenion o natur "business, commercial or personal" yn groes i'w gilydd. Dylai'r arweiniad naill ai egluro'r ffaith na ddylid defnyddio e-bost at y dibenion hyn neu dylid diffinio'r amgylchiadau lle y gellir eu defnyddio at y cyfryw ddibenion yn gliriach. Fodd bynnag, o ystyried costau dibwys y broses o anfon e-bost a gwir natur y ffordd y defnyddir e-bost, roedd y penderfyniad i wahardd eu defnyddio am y rhesymau hyn yn ymddangos yn afrealistig.

iv. Roedd angen i'r arweiniad adlewyrchu mwy ar rolau Aelodau fel cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol. Roedd yn aml yn anodd gwahaniaethu rhwng y ddwy rôl, yn enwedig wrth ddatblygu polisïau.

v. Nid oedd yr arweiniad yn ymdrin â'r defnydd o'r Rhyngrwyd.

31. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifenyddiaeth hysbysu'r Pwyllgor Tŷ o'r pwyntiau a wnaethpwyd wrth drafod.

*Gweithredu*: Ysgrifenyddiaeth

**7.ii: Rhannu Swyddfeydd Etholaeth**

Papurau STD 01-02_07)

32. Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ystyried arweiniad drafft ar y broses o rannu swyddfeydd etholaeth, a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ffioedd ac y cytunwyd arno ar ffurf drafft gan y Pwyllgor Tŷ. Cawsai hyn ei ysgogi gan achos "McLeish" yn yr Alban. Gwahoddasid y Pwyllgor i wneud unrhyw sylwadau ar yr arweiniad drafft.

33. Ar y cyfan, roedd y Pwyllgor yn fodlon ar yr arweiniad a chytunodd ei bod yn ddymunol iddo gael ei gyhoeddi. Fodd bynnag, mynegodd rhai Aelodau bryder ynglŷn â'r materion a nodwyd ym mharagraff 8 yn yr arweiniad drafft (ynglŷn â rhentu eiddo oddi wrthych chi eich hun neu oddi wrth bartner). Roedd yn amlwg bod angen sicrhau bod unrhyw drefniant o'r fath mor

dryloyw â phosibl er mwyn osgoi unrhyw broblemau a bod tystiolaeth ar gael a oedd yn dangos bod y rhenti yn rhenti gwirioneddol fel y'u pennid gan y farchnad. Fodd bynnag, efallai y byddai'n well pe gwaherddid trefniadau o'r fath yn gyfan gwbl. Ni ddaeth y Pwyllgor i unrhyw gasgliadau pendant ar y mater ond gofynnodd am gyfeirio'r pryderon a fynegwyd at sylw'r Pwyllgor Tŷ.

*Gweithredu*: Yr Ysgrifenyddiaeth i hysbysu'r Pwyllgor Tŷ o safbwyntiau'r Pwyllgor.

**Eitem 8: Unrhyw Fusnes Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

*Dyddiad y Cyfarfod Nesaf*

34. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ar ddydd Mercher 8 Mai 2002. Gellid cynnal cyfarfodydd hefyd ar ddydd Mercher 12 Mehefin a dydd Mercher 10 Gorffennaf pe bai angen.

35. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am fod yn bresennol ac am y ffordd adeiladol a hwyliog y cynhaliwyd y busnes.

36. Daeth y cyfarfod i ben am 11:07 am.

***Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau***